

I BLANT Y BWGAN

Drama radio

Cymeriadau:

Huws y Gweinidog

Robaits

Mrs. Robaits

Tomos y Plisman

Wil Emwnt y garej

Ei Fab

Inspector

Robat Rhos Bach

Cyhoeddwr, blaenor,

blaenor llyfr bach,

lleisiau bechgyn.

*(SWN CANU EMYN YN Y CAPEL, GAN ORFFEN,
EFALLAI GYDA'R GEIRIAU "DRUGAREDD I
DROSEDDWYR GWael")*

CYHOEDDWR : Mi ddylsw'n i fod wedi cyhoeddi y bydd y festri 'ma'n agored i'r plant sydd am drio yr Arholiad Ysgrifenedig undebol nos Iau am saith o'r gloch. Pob plentyn i ddwad â'i reitin-pen-dur efo fo.

(SWN POBL YN SYMUD ALLAN)

BLAENOR : Pregeth gall iawn, Mr. Huws. Mi fydda i yn cael *gafael* ar bregethau o'r Hen Destament.

BLAENOR LLYFR BACH : Mr. Huws—wyddoch chi nad ydi'ch enw chi ddim i lawr ar y llyfr bach yma tan 1962? Dyma'ch sic chi . . .

HUWS : Diolch yn fawr. Felna y mae hi. Mae hi wedi mynd yn fyd prysur ar bregethwyr yr un fath â phawb.

BLAENOR : Fasach chi ddim yn medru dwad atom ni yn ystod wythnos y cyfarfodydd gweddia'? Pregeth fydd gynno ni ar y nos Ferchar fel rheol.

HUWS : Wna i ddim gaddo rwan. Mi gawn weld ymhellach ymlaen. Nos dawch i gyd.

BLAENORIAID : Nos dawch.

ROBAITS : Rydw i'n dwad hefo chi, Mr. Huws. Fedrwhch chi ddim symud nes symuda i 'nghar.

(AGOR DRWS)

HUWS : Tendiwch yr hen step 'ma. Rydan ni yn symud ymlaen rwan i gael golau mawr uwchben y drws. Mi oleuai hwnnw'r cowrt yma i gyd. O, mae gynnoch chi flaslamp.

HUWS : Mae gynnoch chi libart helaeth yma.

ROBAITS : Oes. Ple mae 'nghar i deudwch? Fanma y gadewais i o, wrth y drws ochor yma.

HUWS : Tydi 'nghar innau ddim yma chwaith.

ROBAITS : Grym mawr!

HUWS : Nagdi yn wir. Fanma 'roedd o. Roeddwn i wedi adael o'n glos y tu ôl i'ch un chi.

ROBAITS : O, rhowch, mi awn ni rownd i'r ffrynt. Teulu Terfyna symudodd nhw mae'n siwr. Mi gwelis nhw'n gwneud ambell dro os byddan ni'n hir ar ôl y bregeth.

HUWS : Mi fuom ni'n sgit iawn heno beth bynnag . . . ond roedd clo ar fy nghar i. Dyma'r goriad yn fy mhoced i.

ROBAITS : Dowch inni gael golwg. Oedd y ffenestri i gyd yng nghaead gynnoch chi?

HUWS : Oeddwn wir, dyna'r peth ola fydda i yn wneud cyn gadael y car. Ymorol fod pob ffenest wedi ei chau a'r drysau i gyd wedi eu cloi.

ROBAITS : A, dyma nhw. Roeddwn i'n meddwl . . .

HUWS : Ond ple mae f'un i?

ROBAITS : Grym! ia . . . Toes yma ddim ond f'un i. Rhowch, mi ofynna i i'r twr hogia acw. Mae'r rheina i gyd yn mynd allan cyn y seiat. Robat Henri, hogia, ddaruch chi ddim digwydd gweld neb yn medliach efo'r cerbyda 'ma debyg?

LLEISIAU : Naddo wir, Wmffra Robaits.

ROBAITS : Teulu Terfyna na neb?

HOBAT HENRI : Toedd 'na neb o'r Terfyn yn y capal. Owen Owens wedi torri asen. Yr heffar goch wedi ei wasgu o bora, a mae'r Doctor yn deud y bydd raid iddo fo aros yn ei wely am . . .

ROBAITS : Yldi, dos i nol Tomos Plisman. Pera iddo fo

ddwad y munud yma, fod gen i waith pwysig iddo fo. HUWS : Naci wir, Mr. Robaits, o naci, alla i ddim aros mynd i gyfraith. Fum i erioed yn eu gafaelion nhw—y plismyn 'ma. Gweinidog tawel parchus ydw i. Mi fydd yn y papurau newyddion—Gweinidog Pen Gwalia ar goll—ei gar o ar goll. Rydw i wedi bod yn ofalus erioed i ochel cael fy enw yn y papur. Gwrthod cadeirio i'r Rhyddfrydwyr, rhwystro i'r wraig acw agor basâr. Rydw i wedi gwrthod swyddi da—popeth ond cadair y Gymdeithasfa. Ac mi fuaswn wedi . . .

ROBAITS : Twt twt, ddyn, does neb yn sôn am bapur newydd, prun bynnag mae'n rhy hwyr rwan. Mi fydd Tomos y Plisman yma gyda hyn, ac os ydw i yn nabod Tomos . . .

HUWS : Rydw i yn ei nabod o. Mi wneith fôr a mynydd o'r achos lleiaf. Fo ddaeth acw pan aeth Idwal hogyn y codwr canu ar draws ci'r person efo'i feic. Mi droth y traffic dros ddwy filltir o'r ffordd dros Bont y Cwrt er mwyn iddo fo gael mesur. A hynny fis Awst, a channoedd o gerbydau ar y ffordd.

ROBAITS : Ond mae'ch car chi wedi diflannu. Tydach chi ddim am ei roi o yn bresant i neb ydach chi? Rhaid dal y lleidar a'i gosbi o.

HUWS : "Eto y rhai diangol hwy a ddiangant, ac ar y mynyddoedd y byddant hwy i gyd fel colomenod y dyffryn, yn griddfan, bob un am anwiredd."

ROBAITS : Ia, mae'r Diarhebion fel llyfr "Pawb ar Bopeth," adnod i bob dim.

HUWS : Eseciel, Robaits, Eseciel.

ROBAITS : Dyma Tomos yn dwad : mae gynno fo dortsh fel potsiar.

TOMOS : Mi adewis fy swper ar ei hanner.

ROBAITS : Ylwch Tomos, rhaid ichi ddal y lleidar, a hynny'n fuan. Roeddwn ni'n meddwl mai teulu Terfyna oedd wedi symud . . .

TOMOS : Ara deg, ara deg ddyn, rhowch yr hanes yn daclus imi. Tydi hyd yn oed plisman ddim yn cael ei dalu am ddarllen meddylia.

ROBAITS : Ydi,—nagdi. Wel mi gyrhaeddis y capel 'ma heno am bum munud i chwech, ac mi adewis y car yr ochor

bella i'r steps wrth y drws ochor. Daeth Mr. Huws 'ma wrth fy nghwtyn i, a mi adawodd ei gar tu ôl i f'un i, a mi cloedd o, do, bedwar drws. A dyna ni'n dau i mew'n i'r capel efo'n gilydd.

TOMOS : Oedd clo ar eich car chi, Robaits?

ROBAITS : Nag oedd. Fasa clo fawr o werth, toes yna ddim ffenast ar ddrws y dreifar. Mi ddaethom allan o'r capel. Tendiwch y step 'na!' medda fi wrth Mr. Huws. Mae gynno fo fflaslamp. Dyma ni at y cerbydau—ond doedd dim ond lle buo nhw. Wedyn dyma ni i'r ffrynt 'ma a chael hyd i 'nghar i. Dyna chi'r stori i gyd yn daclus. Rwan be 'dach chi am wneud Tomos?

TOMOS : Rhoswch chi imi gael fy llyfr. Rhaid imi gael eich enw chi'n llawn Mr. Huws, a'ch cyfeiriad chi.

ROBAITS : O diar, ei gar mae'r dyn wedi golli, nid ei enw.

TOMOS : Peidiwch chi â thrio bod yn smart, Roberts. Rhaid dechrau o'r dechrau. Parch. Robert Huws, Myfyrfan.

HUWS : 'F' fydda i yn roi, nid 'V'.

TOMOS : Reit, Myfyrfan, Pen-Gwalia. Oes gynnoch chi ffôn yn y tŷ?

HUWS : Oes. Pengwalia 239.

TOMOS : O, a nymbar eich car chi os gwelwch chi'n dda.

HUWS : Mae arna i ofn na 'wn i ddim. Toes fawr er pan mae'r car gin i. Mae yna 'X' i fod ynddo yn rhywle.

TOMOS : Wel, wel, rydach chi'r pregethwrs yn setiad anobeithiol. Nabodech chi'r car petaech chi'n i weld o?

HUWS : Mae yna 'X'. Mae'r leisans dreifio gen i. Hwyrach fod y nymbar ar hwnnw.

TOMOS : Nac ydi. Ydi'r siwrans gynnoch chi? Gallsa hwnnw fod yn help.

HUWS : Ydi . . .

TOMOS : Dowch weld. Expiring 20th July, 1957. Mae hwn wedi darfod. 'Tae waeth mae'r nymbar yma. Austin 10. Reg. No. MXS 411. Pa flwyddyn oedd, neu ydi'ch car chi?

HUWS : 1938.

ROBAITS : Cofiwch mai pregethwr ydi'r dyn. Rydach chi'n ei holi o fel tae o'n injiniar.

TOMOS : Rwan mi awn ni i gael golwg ar yr union le lle'r oedd y car yn sefyll. Cerddwch chi tu ôl i mi. Ac mi

chwiliwn ni'r lle yn fanwl yng ngolau'r dortsh yma. Rwan, un lein tu ôl i mi.

HUWS : Fan yma roedd y ddau gar.

ROBAITS : Mae yna falwen yn y gwter yma Tomos.

TOMOS : Go brin fod wnelo honno ddim a'r cês.

ROBAITS : Meddwl ron i ei bod hi wedi dwad yma i roi tipyn o styr mew'n petha.

TOMOS : Rwan, roedd trwyn y car cynta wrth y steps yma. Beth ydi hyd eich Ffordwn chi, Robaits?

ROBAITS : Mi anfona i i'r ffyrn.

TOMOS : Robaits!

ROBAITS : Rhyw dair llath.

TOMOS : Reit. Un, dwy, tair. Un, dwy. Rwan yr ydan ni yn sefyll yn yr union fan y safodd y lleidr rhyw awr o'n blaenau ni. A, mi gesiais i hi'n weddol, wir. Drychwch ar lawr.

HUWS :) Tyrnsgriw.

ROBAITS :)

TOMOS : Ie, tyrnsgriw. Carn melyn a seimiach ar ei garn o. Gyfeillion, fydda i ddim yn hir yn dal y lleidr. Rhoswch, mi lapia i hwn yn fy hances poced. Robaits, rydach chi yn ddyn go glyfar. Ydach chi wedi ei gweld hi bellach?

ROBAITS : Wel, roedd clo ar gar Mr. Huws ac mae'n debyg i'r lleidr gymryd tyrnsgriw i ddatod y ddwy sgrïw sy'n dal y dwrn, ac agor y drws. Wedyn . . .

TOMOS : Wedyn be', Robaits?

HUWS : Methu dallt rydw i sut na fasa ni wedi clywed rhyw ddrw o'r capel. Sŵn y car yn cychwyn . . .

TOMOS : Nid ffwl ydi perchennog y tyrnsgriw yma Mr. Huws . . . ac nid ei hunan roedd o wrth y gwaith. (*yn isel*) Eu gwthio gafodd y ceir. Mae gan Wil Emwnt y garej grymffast cry' o fab. Mi gwelis o â'n llygad fy hun yn codi car o'r ffos.

ROBAITS : Ond fasa Wil Emwnt y garej byth yn meiddio.

TOMOS : Na fasa fo wir? Nid dyma'r tro cynta imi fod mew'n hobl efo fo. Pan gollodd Doctor Pritchard ei olwyn sbar. Lle'r oedd hi? Mi fethais i â phrofi dim y tro twnnw. Ond toes yna ddim methu i fod y tro yma. Na, toedd hi ddim yn anodd i ddau ddyn cry

wthio car heb fod yn fawr drwy giat y capel yma.
Wedyn yr oedd ganddyn nhw allt i lawr bob cam i'r
garej.

ROBAITS : Clyfar gynddeiriog, P.C. Tomos. Rhyfedd iawn
ichi fethu profi achos yr olwyn sbar. Mi fyddwch yn
siwpar rhag blaen, gewch chi weld.

TOMOS : Welsoch chi rywbeth o'i le yn fy namcaniaeth i?

ROBAITS : Mae popeth o le ynddi hi. Mae'n well imi dewi,
mi gewch glywed gan Wil Emwnt mae'n siwr.

HUWS : Mr. Robaits bach, peidiwch ag anghofio eich hun.
Hefo plisman rydach chi'n siarad cofiwch.

TOMOS : Ia, a phlisman eitha abal hefyd. Mi ga i eich gweld
chi eto ymhellach ymlaen, mae'n siwr.

ROBAITS : Rydw i am fynd â Mr. Huws efo mi am damaid
o swper. Mae nymbar fy ffôn i gynnoch chi?

TOMOS : Ydi, ond go brin y bydda i ei angen o. Mae'n o
debyg y do' i â char Mr. Huws acw o hyn i ben yr awr.
Rwan mi ai i gael sgwrs fach glên efo Mr. Wiliam
Emwnt a'i fab, Agents for Austin, Standard and
Triumph.

(CAR YN CYCHWYN)

(CURO HIR AR DDRWS TY: DRWS YN AGOR)

TOMOS : Ydi dy dad yn tŷ?

MAB : Ydi, mae o newydd ddwad rwan.

TOMOS : Oho, rydw i am ddwad i mewn.

MAB : Fasach chi ddim yn sychu'ch traed yn y gratin?

TOMOS : Lle mae dy dad?

MAB : Mae o trwodd yn y gegin bach yn cael i swper.
Steddwch yn fanna, ond tendiwch wrth godi. Mae
pawb yn taro ei ben yn yr hen silff 'na.

TOMOS : Wiliam Emwnt.

WILIAM EMWNT : Sut 'dach chi, Tomos?

TOMOS : Mae'n debyg eich bod chi'n gwybod fy neges i.

WILIAM : Wel nag ydw mae arna i ofn wir—os nag ydach
chi'n dal i feddwl mai fi ddwynodd olwyn sbar Doctor
Pritchard.

TOMOS : Mae gen i fy syniada fy hun ar yr achos hwnnw,
ond nid dyna pam y gelwais i heno. Mae gen i achos
mwy difrifol o gryn dipyn i drafod hefo chi.

WILIAM : Oes isio i'r hogyn yma fynd allan?

TOMOS : Nag oes.

WILIAM : Bedach chi'n rhythu arno fo fel tasa cyrn ar i
ben o?

TOMOS : Mi fyddwch chi, Wiliam Emwnt, yn tynnu eich
cyrn chi i mewn pan glywch chi fy neges i. Ac am y
mab yma—wel, gwneud tipyn bach o glandro roeddwn
i. Pa bryd buost ti'n gwthio car ddwaetha ngwas i?

MAB : Heno am wn i.

TOMOS : Diolch am ateb ar ei ben.

MAB : Mi fum i'n gwthio dau ohonyn nhw.

TOMOS : Gwell fyth. Dal di i ddweud y gwir, machgen i,
ac mi gliriwn ni'r achos yma'n fuan iawn. Dau Forus
oedd y ceir?

MAB : Naci, Ffordyn ac Austin oeddau nhw.

TOMOS : Wel dyna fo, mae'r achos wedi ei brofi. Dywed i
mi tra byddi di'n cael hwyl ar ddweud y gwir—beth
ydi nymbar yr Austin wthiaist ti?

MAB : WP 6932.

TOMOS : Cymer di funud i ail-feddwl.

WILIAM : Ylwch Tomos, wn i ddim i ble rydach chi'n
gyrru'ch ceffyl, mae croeso ichi holi'r hogyn yma, ond
tydach chi ddim i'w groes-holi o. Mi a i ar fy llw fod
pob ateb y mae o'n i roi ichi yn wir.

TOMOS : Ewch mae'n debyg iawn . . . Wyt ti'n siwr ngwas
i, nad oedd yna ddim X yn nymbar yr Austin yna fuost
ti'n wthio?

MAB : Wel ydw siwr.

TOMOS : Mae arna i ofn na twyt ti ddim yn deud y gwir.

WILIAM : Tomos, nid dyma'r tro cynta ichi'n beio ni ar
gam. Mi ddioddais i'r cwbul yn dawel y tro dwaetha
yn do? Tydw i ddim am ffræo efo chi'r tro yma
chwaith. Rydw i'n rhyw fath o'ch parchu chi cofiwch—
yr un parch ag sydd gen i i'r eglwys a'r bont a siop
Elin Jos—y petha sydd yma er erioed. Ar yr un pryd
rydw i am ichi ddallt na fydda i byth yn sbio i fyny
nac yn sbio i lawr ar blisman. Mae plisman a bwgan
brain yn golygu'r un peth yn union i mi. Duw annwyl
ddyn, peidiwch ag edrych mor felltgedig o bwysig.

TOMOS : Tydw i ddim wedi dwad yma i ofyn eich barn

chi nac i wrando pregeth. Yli was . . . ei di ar dy lw nad MXS 411 oedd nymbar yr Austin fuost ti a dy dad yn wthio heno?

WILLIAM : Doeddwn i ddim efo'r hogyn yma yn gwthio unrhyw gar heno, ac mae'n rhaid imi gael gwybod gynnoch chi'r funud yma am ba achos rydach chi'n son. Rydw i yn y niwl.

TOMOS : Ydach chi'n nabod y tyrnsgriw yma?

WILLIAM : Mi welais ugeiniau o dyrnsgriws tebyg iddo fo. Mae gen i ddau neu dri yn y gweithdy rwan. Mae'r rhai carn melyn yna yn gyffredin iawn.

TOMOS : Wil Emwnt, eich tyrnsgriw chi ydi hwn. Ac yn iard y capel y dois i ar ei draws o heno.

WILLIAM : Fedra i ddim gweld fod hynny'n achos difrifol iawn. Ddoe ddwaetha'n y byd mi ges i falwen yn fy nghabaitsen.

TOMOS : Rydach chi'n gwamalu Emwnt a hynny i ddim ond i ymddangos yn ddidaro imi. Mae o'n beth sy'n cael i wneud yn amal iawn. Ydach chi'n cofio'r Saesnes honno oedd yn aros efo'r Morgans y llynedd. Mi aeth hi i hel mwyar duon a hithau newydd rwy mo ei mam druan wrth y stof â'i phen yn y popty.

MAB : Mae yma gar wrth y pwmp isio petrol.

TOMOS : Aros di ble rwyd ti, mab. Does yr un ohonoch i symud nes y bydda i wedi gorffen efo chi. A pho gynta'r atebwch chi 'nghwestiyna i, cynta'n y byd y bydda innna'n mynd adra.

WILLIAM : Be ar y ddaear ydach chi isio wybod ddynd? Deudwch yn glir i be daethoch chi yma.

TOMOS : Os oes raid imi adrodd ei bader wrth berson . . . dyma'r hanes ichi . . . mi ddiffannodd car Mr. Huws, Pengwalia heno o ffrynt y capel.

WILLIAM : A'r tyrnsgriw?

TOMOS : Ia, y tyrnsgriw. Roedd clo ar gar y gweinidog. Ar lawr lle 'roedd y car wedi ei barcio y cefais i hwn. Chi pia fo. Yr erfyn agorodd y clo wrth gwrs.

WILLIAM : Tomos, chydig iawn wn i am y capel, a llai fyth am gar gweinidog Pengwalia. Ac am y tyrnsgriw . . . rydw i wedi deud wrthoch chi'n barod fod yna gannoedd o rai felna hyd y patches yma.

TOMOS : Felly rydach chi'n deud na fuoch chi ddim trwy giat y capel heno?

WILLIAM : Pnawn Llun diolchgarwch y bum i drwyddi hi ddwaetha.

TOMOS : Rhag cywilydd ichi . . .

WILLIAM : Tydach chi hanner . . .

TOMOS : Belled ag eich bod chi'n mynnu gwadu, mae'n rhaid imi eich holi chi'n fanwl am eich symudiadau heno.

WILLIAM : Rydw i'n barod.

TOMOS : Ymhle roeddach chi amser te heno?

WILLIAM : Yn cael te.

TOMOS : Ymhle?

WILLIAM : Yma, yn y gegin bach, ar y gadair yma. Wy wedi ei ferwi . . .

TOMOS : Faint o'r gloch oedd hi?

WILLIAM : Deunaw munud wedi pedwar.

TOMOS : Pam deunaw munud ysgwn i?

WILLIAM : Am mai dyna oedd y cloc bach yma'n ddweud. Roedd arna'i isio dal bus chwarter i bump yn Glandwyfach. Job taci, dyna pam ron i â'm llygad ar y cloc. Chwarter awr i gael fy nhe a deng munud i ddal y bus.

TOMOS : Oes yma rywun fedar gadarnhau'r peth ddeudsoch chi rwan?

WILLIAM : Cadarnhau?

TOMOS : Ia cadarnhau ddeudis i.

WILLIAM : Nel bach Ty'n y Gongol oedd efo mi yn y car. Mae hi'n nyrsio yn Lerpwl, ac wedi cyrraedd bellach mae'n siwr, ac wedi dechrau ar ei gwaith hefyd. Gweithio'r nos yr wythnos yma, meddai hi . . .

TOMOS : Fydd hi fawr o help ichi mae arna i ofn. Faint o'r gloch oedd hi arnoch chi'n cyrraedd y ty yma yn eich ôl?

WILLIAM : Drychis i ddim ar y cloc. Tua pump mae'n siwr, TOMOS : Be wedyn?

WILLIAM : Darllen a phendympian bob yn ail nes daeth dyn i'r drws. Peipen ddwr i gar o wedi bystio yn ymyl Tai Lôn, ac wedi llifo hyd y plygia. Mi es efo fo a'i douo yma.

MAB : Fi osododd beipen newydd iddo fo. Mi ddaeth nhad â'r plygia i'r popty i sychu.

WILLIAM : Do, ac mi fu'r dyn yma am chwarter awr. Mi daniodd y car ar ei union wedyn. Newydd fynd yr oedd o pan oeddech chi'n curo'r drws.

TOMOS : Welais i ddim golwg o gar. Ta waeth, mi awn ni allan am dro bach rwan, a hwyrach y cawn ni daro cipolwg ar y garej yr un ffordd . . .
(*CURO'I BEN YN ERBYN Y SILFF*)

Go drapia las, i be rhôl neb silff mewn lle cyn wirioned?

WILLIAM : Rhoswch, mi ro i olau.

(*SWN SYMUD—GAREJ ETC.*)

MAB : Dyma fo'r Ffordyn bach fum i yn ei wthio. Wedi chwythu gascet mae o.

TOMOS : Ond car Jones y post ydi hwn?

WILLIAM : Mae car Jones yn torri i lawr weithiau, wyddoch chi.

TOMOS : Ond welais i hwn yn mynd fel peth gwirion rownd y bont yma ddoe, a llond y pen ôl o negas.

WILLIAM : Hwyrach wir.

MAB : A dyma'r Austin WP. Hwn fydd gen i yn cario'r plant i'r ysgol.

TOMOS : Ond mae hwn yn Austin 18 . . .

WILLIAM : Austin 12, a ddeudodd neb mai 10 oedd o.

TOMOS : Bedach chi'n gadw dan y plancia 'ma?

WILLIAM : Cadw dim. Twll gwag sydd yna. Chae neb byth gar i hwnna. Dyna oedd yn eich meddwl chi?

TOMOS : Mae llawer o betha yn fy meddwl i. Dyma un ohonyn nhw—rydw i'n mynd adra rwan i ffonio'r Inspector, ac ar ôl iddo fo glywed fy neges i, mae'n debyg iawn y bydd o'n awyddus i gael sgwrs efo chi. Da boch chi, Emwnt.

WILLIAM : Nos dawch. (*SAIB*)

(*CAR YN STOPIO*)

INSPECTOR : Wel, Tomos?

TOMOS : Rydach chi wedi cyrraedd i'r dim, Inspector. Rhagluniaeth. Mae yna gar wedi ei ddwyn o gowrt y capel. Cael golwg bach hyd y fan yma 'ron i rwan.

INSPECTOR : Ydach chi wedi gwneud rhywbeth?

TOMOS : Naddo, un dim. Meddwl am eich ringio chi roeddwn i yn gynta peth cyn gweld neb na dim. Mae gynnoch chi eich ffordd eich hun efo'r helyntion 'ma.

INSPECTOR : Oes. Neidiwch i mewn, Tomos. Mi awn ni i Ben y Garn i gael sgwrs efo Mr. Hughes.

(*CAR YN CYCHWYN*)

TOMOS : Efo Mr. Huws?

INSPECTOR : Ia, Mr. Huws. Fo pia'r car ynte?

TOMOS : Ia, ond sut gwyddech chi?

INSPECTOR : Roberts fuo ar y ffôn efo mi, a mi addewais alw yno heno. Faswn i ddim wedi'ch trwblo chi, ond mae yna dair neu bedair o giatiau i'w hagar ar y ffordd.

TOMOS : Mae modd mynd heibio'r stabla gora. Toes 'na'r un giât ar y ffordd honno.

INSPECTOR : Mi dorris i spring flaen trw'i hanner yn y fan honno ryw dro.

TOMOS : Erbyn ichi ddeud, rydw inna'n cofio imi dorri tair sbocsan fy meic yno ddiwrnod dipio. Oes gynnoch chi ryw syniad lle gall'sa'r car yma fod, Inspector?

INSPECTOR : Nac oes gin i, os nad ydi o beidio bod yn cuddio yn un o'r pitiau yn garej Wil Emwnt.

TOMOS : Synwn i'r un hadan. Fasa dim gwell i ni'n dau fynd i gael golwg?

(*CAR YN STOPIO: GIAT GYNTA*)

INSPECTOR : Ydach chi am agor y giat yna?

TOMOS : Rhoi pwniad iddi efo bympar y bydd Robaits.

(*SWN Y GIAT YN SYRTHIO*)

Drapia las. Rhoswch imi i chodi hi. Mae sôn am giatia Pen y Garn.

INSPECTOR : Gadewch hi'n agored. Does yma ddim i fynd i'r lôn yma'n nagoes?

(*DRWS Y CAR YN CAU: CAR YN CYCHWYN*)

TOMOS : Nagoes. Dim ond 'rhen ddefaid yma, a mae'n well gin rheini fynd dros y cloddia.

INSPECTOR : Welsoch chi'r un cymeriad amheus o gwmpas heno debyg?

TOMOS : Naddo wir. Tua'r tŷ acw y buom mi hwy'a'. Rhoi

troed newydd ar y sofffa. Duwc! Dacw ichi glogyn nobl.

INSPECTOR : Clogyn?

TOMOS : Y ceiliog ffesant acw. Traed arni, ne mi collwn o gymra fy llw. Drapia las. Mi fasach wedi cael croeso gin Mrs. Owen, mynd adra hefo hwnna.

INSPECTOR : Oes fanma giat eto?

TOMOS : Oes rownd y tro yma. O, mae hi'n gorad ddyliwn i. Does gynnnon ni ddim ond yr union yma rwan a giat yr iard.

INSPECTOR : Mae hi'n hen bryd. Mi ddeudis i air wrth Mrs.

Huws yn Nhregwalia rhag iddi fynd yn anesmwyth.

TOMOS : Ron inna wedi meddwl yn siwr. Dyma ni, Inspector. Ei adael o yn fanma fydd ora ichi. Mae 'rhen iard yna'n rhwtra, dwi'n siwr.

(*CAU DRYSAU'R CAR ETC.*)

(*CWN YN CYFARTH*)

Tydi drugaredd fod y dortsh yma gin i.

INSPECTOR : Daliwch hi ar y beudai yna.

TOMOS : Gweld yma fyddai clyfar ydach chi? Fforma byddai'r hen sgweiar yn byw ers talwm.

INSPECTOR : Na, meddwl gallsai rhyw hogia gwirion ddwad â'r car yma a'i roi o i mewn yn un o'r rhain.

TOMOS : Ond pam dwad â char Mr. Huws i'r fanma, Inspector? O, dacw rywun yn agor y drws. Mi waedda i mai ni sydd yma. Mae pobol yn dychryn wrth weld plismyn weithia.

INSPECTOR : Twt, does ar blant yr oes yma ddim ofn plismyn. Peth arall, mae Mrs. Roberts yn ein disgwyl ni.

MRS. ROBAITS : Ddaethoch chi? Mae'r iard yn sobor o fudur. Rydan ni mewn powlan yma braidd. Yn derbyn pob dwr wyneb. Dowch i mewn. Tua'r gegin y maen nhw. Yn mynd i gael swper. Wedi bod yn ffonio a ballu. Ddowch chi ddim i gael tamaid efo nhw?

INSPECTOR : Peidiwch â hwylio dim imi Mrs. Roberts. Wnes i ddim ond codi oddi wrth y bwrdd.

MRS. ROBAITS : Twt. Rhowch eich cap o'ch llaw yna fanma. Dowch trwodd. Ydach chi wedi cael swper, Tomos?

TOMOS : Mynd i ddechra ron i pan ddoth yr hogyn petha Tai Ffatri yna i alw arna i.
(*DRWS YN AGOR*)

MRS. ROBAITS : Dyma nhw wedi dwad ichi. Steddwoch yn y gadair -wrth-tân Inspector. Cerwch chitha wrth ochor Winffra ar y sofffa i gael tamaid, Tomos.

HUWS : Ddaruch chi alw efo Mrs. Huws, Inspector?

INSPECTOR : Do, mi eglurais i'r cwbul iddi, a mi ddeudis y caech chi ddwad adra efo mi.

HUWS : O, diolch yn fawr.

ROBAITS : Roeddann ni wedi trio ffonio iddi droeon. Yn y pen hwnnw mae'r drwg mae'n siwr. Mi gawsom drwodd atoch chi ar ein hunion.

MRS. ROBAITS : Mi gymrwch chitha panad o ddiod yn eich llaw, Inspector?

INSPECTOR : Dim ond panad 'ta. Diolch.

MRS. ROBAITS : Deud y drefn ron i wrth y dynion ma rwan am eich tynnu chi allan i ddim byd.

INSPECTOR : O.

MRS. ROBAITS : Ia, mi ddylen nhw fod wedi holi'r twr hogia yna y tu allan i'r capel. Mi wyddai'r rheina rywbeth am yr helynt ichi neu tydi f'enw i ddim yn Leusa Robaits.

ROBAITS : Ond 'toedd yr hogia i gyd yn y capel, Leusa. A pheth arall, tasa wnelo nhw rywbeth â chuddio'r car, fasan nhw ddim yn fan honno wrth y giat yn smocio'n braf, reit siwr ichi.

INSPECTOR : Rydach chi o'i chwmpas hi, Robaits.

MRS. ROBAITS : Tamad bach o'r sandwich yma, Inspector.

INSPECTOR : Dim diolch. Ron innau'n ama mai tricia plant oedd cuddio'r car, ond erbyn hyn rydw i'n weddol sicr o un peth.

HUWS : Ia, Inspector?

INSPECTOR : Mi fwriwn ni am funud mai'r hogia fuo'n chwarae castia. Reit. Ydach chi'n meddwl basa nhw wedi trafferthu i symud y car cyntaf i ffrynt y capel i gael lle i fynd â'r ail gar, car Mr. Hughes yma, i'r flordd. Dim peryg. Mi fasan wedi rhuthro am y car cynta gawsan nhw, a'i guddio fo yn rhywla heb fod

ymhell, a'i gwneud hi am adra gynta medran nhw.

ROBAITS : Rydach chi'n iawn Inspector. Fy nghar i fasa'r hogia wedi ddeuwis.

MRS. ROBAITS : Am wn i na fyddai hynny'n drugaredd â phawb. Rydach chi'n sobor o ddifalch, Wmffra. O mae golwg ar yr hen gar yma. I feddwl ei fod o'n cael i adael o flaen y capel. Mi fydd yn dda gin i gweld hi'n dwad yn ddydd byr . . .

INSPECTOR : Ia. Mr. Huws, mae eich car chi wedi ei ddwyn am mai eich car *chi* ydi o.

HUWS : Bedach chi'n feddwl Inspector? Ydach chi'n meddwl fod yna rywun â'i ddant yna i?

INSPECTOR : Mae arna i ofn mai dyna'r gwir. Mi gymrodd y lleidr neu ladron drafferth i symud car Mr. Roberts yma er mwyn cael gafael ar eich car chi.

TOMOS : Mae hi'n berig fod yr Inspector yn iawn, Mr. Huws. Pe gwelech chi mor ddeheuig fuo fo'n dal merch y Morgans ddechra ha.

HUWS : Ond fedra i ddim meddwl am neb yn y cwm yma â phwyth i'w dalu'n ôl imi. Wnes i ddim ond fy ngora i bob rhai ohonyn nhw er pan fu farw William Williams yr hen weinidog. Eu bedyddio nhw a'u claddu nhw a sgwennu llythyra dirifedi drostyn nhw. A phobol glên iawn gwelais i nhw . . .

INSPECTOR : Raid ichi ddim cyfyngu eich meddwl i'r cwm yma, Mr. Huws.

HUWS : Ond ble arall?

INSPECTOR : Triwch chi feddwl yn dawel. Oes yna rywun yn rhwla fasach chi'n alw yn elyn i chi?

HUWS : Na wir, fedra i feddwl am neb.

ROBAITS : Meddwl ron i rwan, Inspector, tasa gin i elyn yn rhwla, a bod gin i isio dial arno fo, ymosod arno fo noson dywyll ne roi gwenwyn yn ei fwyd o, neu—wel mae na lawer o bethau wnawn i iddo fo cyn dwyn ei gar o.

MRS. ROBAITS : Cymer hi'n ara deg, Wmffra. Ffarmwr wyt ti cofia, nid plisman.

INSPECTOR : Na, mae o'n eitha ditectif hefyd, ond ei fod o'n mynnu mynd gam o mlaen i. Ydi'r manylion gynnoch chi Tomos? Rhif y car, ei oed o, a'i liw o . . .

TOMOS : Ydi. (*TROI TUDALENNAU*) Austin 10, 1938.
Un du. Reg. No. MXY 411.

INSPECTOR : Faint sy ers pan mae'r car yma gynnoch chi?

HUWS : Rhoswch chi. Cwta dwy flynedd. Y lle cynta buom i hefo fo oedd cyfarfod misol Pwllcrwn fis Ionawr y llynedd.

INSPECTOR : Triwch hel eich meddwl yn ôl. Tua'r amser prynsoch chi'r car . . . 'sgynnoch chi ddim cof i neb sylwi ar y digwyddiad? Ddeudodd neb ddim wrthoch chi—rhywbeth tebyg i hyn . . . "Mae hi'n braf ar bregethwyr . . . digon o bres, ceir newydd amser fynno nhw . . ."

HUWS : Tydw i ddim yn gweld fod a wnelo hyn ddim â'r achos,—na chymerodd neb fawr o sylw o'r car.

INSPECTOR : Beth am y garej fydd yn ofarholio'ch car chi. Ddeudson nhw?

HUWS : Fydda i byth yn deintio trwy ddrws unrhyw garej. Lladron ydi'r garages yma.

MRS. ROBAITS : Rydach chi yn eich lle Mr. Huws. Roedd Wmffra yn talu dros ddeg punt ar hugain i Wil Emwnt rwan am rypârs i hwn. Wnaeth o ddim ond rhoi rhyw grown wheel newydd yn yr injan, a eto wneith o ddim cychwyn, os gwelwch chi'n dda. Rydan ni'n gorfod rhoi'r tractor o'i flaen o bob bore. Mi gollson y lorri laeth ar i gownt o ddwywaith yr wsnos dwaetha.

ROBAITS : Na, meddwl roedd yr Inspector mae'n siwr fod rhywun yn gofalu am ei oelio a'i seimio fo ichi.

HUWS : Idwal, hogyn y codwr canu fydd yn ei hwylio fo'n barod at y Sul imi. Mi ddaw acw bob pnaewn Sadwrn. Hogyn da ydi o. Wedi hen arfer efo peiriannau. Dreifio Stêm Rowlar mae o ychi ers pan adawodd o'r ysgol.

INSPECTOR : Lle byddwch chi'n cael petrol?

HUWS : Yn y Garej Goch ar y gornel o flaen y tŷ acw.

INSPECTOR : Garej y Sais yna—Baines?

HUWS : Ia. Un cwta ydi o hefyd. Rydw i wedi prynu galwyn o betrol gynno fo bob wythnos ers dwy flynedd, a phan oedd Idwal yn cwyno, mi ofynnais iddo fo bympio'r teiars imi. Mi gododd chwecheiniog arna i—ac mi gadwodd y pedwar cap bach sydd ar y lle rhoi gwynt.

TOMOS : Ar y falfiau.

HUWS : Ia, dyna nhw—y falfiau.

TOMOS : Ar eich traws chi, Inspector, ond meddwl ron i os medrai dyn ddwyn cap falf, y medrai o ddwyn car hefyd.

ROBAITS : Grym mawr! Fedrai o ddim rhoi car yn ei boced.

INSPECTOR : Tydw i ddim am ymyrryd mwy nag sydd raid imi yn eich materion preifat chi, ond deudwch imi : ymhle prynsoch chi'r car yna?

HUWS : Nid ei brynu o wnes i. Ei gael o.

MRS. ROBAITS : Chware teg wir. Yr eglwys acw wedi ei roi o'n bresant ichi. Mi allsan fentro ei roi o.

INSPECTOR : Oedd yna ryw aelod ar y pryd yn erbyn rhoi'r car ichi Mr. Huws?

HUWS : Nid yr eglwys acw rhoth o imi . . .

INSPECTOR : O.

HUWS : Naci, car fy nhad yng nghyfraith oedd o. Mi fu farw ychydig dros ddwy flynedd yn ôl, a gadael y car imi yn ei wyllys.

INSPECTOR : Ydach chi'n cymryd nodiadau, Tomos?

TOMOS : Ydw. Tad Mr. Huws wedi rhoi y car yn ei wyllys i Mr. Huws.

INSPECTOR : Enw a chyfeiriad eich tad yng nghyfraith?

HUWS : Ifan Williams, Rhos Bach, Pengwalia.

INSPECTOR : Rhos Bach, rhyw ddwy filltir o'r dre? Gwr gweddw oedd Ifan Williams?

HUWS : Ia.

INSPECTOR : Oedd eich gwraig chi yn un o deulu mawr, Mr. Huws?

HUWS : Un o bedwar o blant. Roedd ganddi hi dri brawd : Ifan, Wiliam a Robat. Mi fu Ifan farw flwyddyn yn ôl. Adra mae Robat a Wiliam yn ffarmio Rhos Bach.

INSPECTOR : Ydach chi ar delerau iawn efo'r ddau?

HUWS : Ydw, gweddol wir. Go chydig fyddai'n weld arnyn nhw. Rhai sal am gapel fuon nhw erioed.

INSPECTOR : Fyddan nhw'n galw acw weithiau, neu fyddwch chi yn galw yn Rhos Bach?

HUWS : Amser claddu Ifan y bum i ddwaetha, a rhai go gartrefol ydyn nhw. Chydig iawn maen nhw'n i fynd i unman.

ROBAITS : Mi fyddan yn dwad i'r dre i siopio bob wythnos debyg?

HUWS : Mi fydda i'n gweld eu car nhw yn y dre weithia, ond go chydig fydda i'n weld arnyn nhw acw.

INSPECTOR : Oedd y brodyr yn fodlon ar ewyllys eu tad?

HUWS : Fedra i mo'ch ateb chi. Y wraig acw fu'n trefnu petha hefo nhw. Wedi'r cwbl, trwy briodas yn unig rydw i'n perthyn iddyn nhw'n te?

INSPECTOR : Cael at wreiddyn y drwg. Dyna fy musnes i Mr. Huws. Hola i ddim mwy arnoch chi heno. Mi awn ni am adra. Hwyrach cawn ni sgwrs eto ar ôl imi gael golwg ar hen lanciau Rhos Bach.

TOMOS : Duwc, mae hi bron yn hanner nos.

MRS. ROBAITS : Nac ydi wir, Tomos. Mae hwn hanner awr . . .

INSPECTOR : Nos dawch i gyd, a diolch yn fawr ichi, Mrs. Roberts.

ROBAITS : Peidiwch â phoeni gormod Mr. Huws. Mi ddaw yr hen gar i'r fei. (SAIB)

(SWN CERDDED)

TOMOS : Oeddach chi ddim yn teimlo fod Mr. Huws yn cadw rhywbath yn ôl neithiwr Inspector?

INSPECTOR : Dydw i ddim yn hollol siwr eto. Mi fydd yn haws dilyn petha siawns ar ôl cael sgwrs efo hen lanciau Rhos Bach 'ma.

TOMOS : Drapia las.

INSPECTOR : Bedi matar?

TOMOS : Wedi dwad heb 'y mhiball rydw i.

INSPECTOR : Tasach chi'n blisman ar eich blwyddyn gynta, Tomos, mi faswn i'n eich atgoffa chi o'r rheolau. Cymerwch sigaret o hwn. Ydi'r llyfr nodiadau gynnoch chi?

TOMOS : Ydi mae o gin i, ond mi fydd yn ddigon anodd gin i roi dim i lawr ynddo fo bora ma.

INSPECTOR : Bedach chi'n feddwl. Ydach chi ddim yn dda?

TOMOS : Rhyngoch chi a fi . . . mi rydw i'n llawiach efo Wiliam a Robat Rhos Bach yma. Mi fyddai'n cael dwad yma i saethu amser fynna i, a thrwy'r rhyfel mi fyddwn yn cael pwys o fenyn yma bob wsnos. Talu

amdano fo wrth reswm . . . menyn da oedd o hefyd a chysidro nad oedd yma ddim pwt o ddynes. Dagrau fel barrug ar ei wyneb o. Mi fasa'r hen bresiar yma wedi cael y gora arna i ers talwm onibai am fenyn Robat a Wiliam.

INSPECTOR : Roeddach chi'n mentro. Mi wn i am amal i hogyn da sydd wedi colli ei gôt am lai peth na phrynu menyn ar y slei. Does gynnoch chi ddim meddwl mawr o'ch swydd yn nagoes?

TOMOS : O oes, Inspector. Mae'n rhaid i blisman da fedru nabod pobol yn rhaid? A fy ffordd i i nabod dyn ydi ei drystio fo. Mynd efo fo, Inspector, drwy'r mwd a'r mêl. Ydach chi'n gweld be sy gin i?

INSPECTOR : Ydw. Mwd. Hwn ydi Rhos Bach?

TOMOS : Ia, Robat sy'n sefyll yn nrws y beudy, a Wiliam ydi hwnna sy'n powlio'r ferfa. Golwg iach arnyn nhw. Drapia las, mi liciwn i gael ffarm bach yn rhwla fforma.

INSPECTOR : Tra bydda i'n cael sgws efo'r ddau ffarmwr yna, ma gin i isio ichi chwilio'r beudai yn fanwl.

TOMOS : A hwyrach byddai'n well imi roi tro rownd y caeau a'r winllan rhag ofn.

INSPECTOR : Ia, ond cadwch eich llygad yn agored—olion teiars, number plate wedi ei luchio i'r gwrych, neu rywbeth.

TOMOS : Os oes yna rwbath i'w weld rydw i'n siwr ohono fo ichi. (SAIB)

INSPECTOR : Sut rydach chi'ch dau. Rydach chi wrthi hi'n o fore.

ROBAT : Rhaid bod yn fachog yn y boreua ar ffarm ychi.

TOMOS : Car Huws, gweinidog Pengwalia, sy ar goll. Dyna pam daethom ni yma hogia. Wrth bod 'na gysylltiad teuluol, ynte.

INSPECTOR : Cerwch i gael golwg hyd y fan yma Tomos. Rydan ni'n chwilio pob twll a chongol yn yr ardal yma, Robat Wiliams.

ROBAT : Ia wir, chware teg ichi.

INSPECTOR : Rydw i'n dallt fod Mr. Huws wedi priodi chwaer ichi.

ROBAT : Ydi—Ann, yr hyna' ohono ni, a'r unig chwaer.

INSPECTOR : Ydi pethau'n o lew rhyngddoch chi a Huws a'i wraig?

ROBAT : Wel ydyn a nagdyn.

INSPECTOR : Fyddan nhw'n dwad i edrych andanoch chi'n amal?

ROBAT : Dair wsnos ar ôl cnebrwng Ifan mrawd y buon nhw yma ddwaetha—fo oedd yn cymryd y gwasanaeth yn y tŷ, a welsoch chi rioed cyn handiad buo fo wrthi. Roedd o ar dân wedyn yn y fynwant—bron nad oedd o'n rhedag adra.

INSPECTOR : Fyddwch chi'n mynd yno weithiau—chi neu eich brawd?

ROBAT : Camp ichi gael Wiliam i symud oddiyma i un man. Dwywaith mae ei siwt ora wedi bod amdano fo ers deng mlynedd. Mae hi yn ei phlyg yn ei goffro o ac yn ei phlyg y bydd hi os na ddigwydda i fynd o'i flaen o.

INSPECTOR : Chi fydd yn negeseua?

ROBAT : Ia, bob wsnos fel cloc. Bob bora Gwener mi fydda i'n bachu'r hen gar yma wrth y gaseg—toes yma ddim tractor. Mi fydda i'n gadael y car ar yr allt o flaen tŷ fy chwaer wedyn cerdded cyn belled â'r Pioneer—efo Davies rydan ni'n delio ers blynyddoedd—talu pen y mis. Ar y ffordd yn ôl mi fydda i'n galw yn nhŷ Ann. Tydw i ddim wedi colli fawr fore Gwener ers dwy flynedd dwi'n siwr.

INSPECTOR : Ond roedd Mr. Huws yn deud na welodd o monoch chi yno ar ôl claddu'ch brawd.

ROBAT : Mae o'n deud y gwir. Welodd o mohona i yn y tŷ ers blwyddyn, Inspector.

INSPECTOR : Bedach chi'n feddwl, Robat Wiliams?

ROBAT : Dowch rownd i'r talcan—mae na haul yn y fanno Mae yna fainc i eistedd hefyd. Mi ddaw Wiliam os liciwch chi, cofiwch. Mae o'n swil iawn—go brin caech chi air gynno fo.

INSPECTOR : Hitiwch befo rwan—go brin poena i mono fo.

ROBAT : Mi dria i dorri stori hir iawn cyn fyrred â medra i ichi. Roedd fy nhad yn gefnog iawn. Mi aeth Huws y Gweinidog yn ffrindia efo Ann . . .

INSPECTOR: Ac mi aeth eich chwaer efo Huws i fyw i Myfyrfan—y tŷ mae nhw ynddo fo rwan.

ROBAT: Do, dyna ddechrau'r helynt, mi ddaeth yna betha diarth iawn i'r Rhos Bach y twniad hwnnw. Trefniant, chware teg, cyfiawnder, siâr—petha plant, Inspector. Tae waeth, y noson cyn y briodas dyma nhad yn deud y basa fo yn trafod petha efo ni. Roedd ganddo fo bum mil yn y banc. Mi roth ddwy fil i Ann y noson honno. Roedd y tair mil a'r ffarm a'r holl stoc i Ifan, Wiliam a finna i wneud fel fynnem ni y munud digwyddai rhywbeth iddo fo. Mi fedar Cadwalad y twrna brofi ichi mod i'n deud y gwir. Fo fyddai'n gwneud popeth i nhad. Fuo nhad byw fawr ar ôl priodas Ann ac wedyn mi fu farw Ifan.

INSPECTOR: Oedd eich chwaer yn fodlon ar y trefniant yma?

ROBAT: Oedd. Roeddann ni i gyd yn fodlon. Roedd Ann a Huws yn galw'n amal—ddwywaith yr wythnos gynta priodson nhw. Mi roi Ann rownd o llunau ar y tŷ yma ac mi ddoi Huws i eista ar y fainc yma os byddai'n braf—syllu i'r wybren acw medda fo. Mi fum i'n craffu arno fo o'r ffolt yma lawer gwaith, a gofyn i mi fy hun be oedd yn mynd trwy'i feddwl o.

INSPECTOR: Pryd ddaru nhw stopio galw yma?

ROBAT: Roeddann nhw'n galw yn bur amal nes bu Ifan farw flwyddyn yn ôl.

INSPECTOR: Welsoch chi mohonyn nhw wedyn?

ROBAT: Do mi fuan yma deirgwath. Mi fydda i yn dal i fynd yno, cofiwch.

INSPECTOR: Me wnaeth iddyn nhw beidio â galw yma'n sydyn—wyddoch chi?

ROBAT: Gwn o'r gora. Gyda bu farw Ifan dyma'n nhw'n gofyn imi am fenthyg pymtheg cant.

INSPECTOR: Pymtheg cant, a nhwtha newydd gael dwy fil?

ROBAT: Y tŷ yna. Myfyrfan oedd yn mynd ar werth am dair mil a hanner. Mi wyddoch mor ddrud ydi tai yn y dre acw. Roedd hi'n dipyn o slap i Wiliam a minna. Roeddann ni'n dau, ac Ann hefyd cyn iddi briodi beth bynnag yn meddwl fod pia Huws y tŷ.

INSPECTOR: Ddaruch chi ddim rhoi pymtheg cant iddyn nhw debyg?

ROBAT: Do wir, mi ddarun. Roedd gan Huws siec yn ei boced yn digwydd bod. Fo ei hun sgwennodd hi a Wiliam a finna'n ei seinio hi.

INSPECTOR: Ond mi gewch yr arian yn ôl debyg?

ROBAT: Dwn i ddim, does gynnon ni ddim i ddangos mai benthyciad oedd y pymtheg cant, a wir toeddan ni ddim yn malio llawer am yr hen arian ar y dechra nes digwyddais i ffeindio fod Huws yn rhoi ym mhen Ann fod ganddi hawl i fil o bunnau—siar Ifan, fel y chwaer hynaf.

INSPECTOR: Ond sut na fuasech chi wedi gwneud petha'n drefnus trwy dwrna?

ROBAT: Ddarun ni ddim meddwl am funud fod angen twrna. Chwaer i ni ydi Ann, a gweinidog a gair da iawn iddo fo ydi ei gwr hi.

INSPECTOR: Mi fyddwch yn eu hatgoffa nhw am yr arian bob tro byddwch chi'n galw yno?

ROBAT: Fydda i ddim yn son cymaint â chymaint am y pymtheg cant ond mi fydda i'n crefu fel plentyn am y car bob tro yr a i yno.

INSPECTOR: Ond mi ron i'n dallt mai Huws oedd wedi cael y car ar ôl eich tad.

ROBAT: Oeddach mae'n debyg. Yn fuan iawn wedi claddu nhad mi dorrodd car Huws. Dwad adra o'i gyhoeddiad nos Sul roedd o ac mi ddaeth y 'big end,' beth bynnag ydi hwnnw, allan drwy ochor yn injan. Hen regsyn o gar oedd ar ei ora, tebyg iawn i'n car ni. Mi tynnwyd o nos trannoeth i dŷ'r Idwal 'na, ac allan yn y ddrycin y tu cefn i'r tŷ buo fo nes aeth ei ben o'n gaws llyffiant. Mae o newydd gael ei werthu i'r petha Bangor 'na sy'n hel hen haearn. Wedyn dyma Ann a fonta yma i grefu am fenthyg hwn am wsnos neu ddwy.

Yno mae o byth, a char da ydi o. Roedd gin Wiliam fwy o afael ynddo na fi. Roedd o'n medru ei ddreifio fo o'r tŷ i giat y lôn ac yn ôl. Fedar o ddim cynnig hwn.

INSPECTOR: Ond be fyddai ateb Huws ichi pan fyddech chi'n gofyn am eich car yn ôl?

ROBAT : Tydw i ddim wedi ei weld o ers dros hanner blwyddyn. Ar y stryd bob tro mae o'n sleifio fel sliwan i dwr o bobol. Bythefnos yn ôl mi es ar ei ôl o i'r lle dynion ar y sgwar, ond ron i fymryn bach rhy hwyr. Roedd o wedi troi'r dwrn o'r tu fewn. Mi fuom i'n trio sgwrsio am y drws ag o am ddeng munud. Mi besychodd unwaith a dyna'r cwbul. Bob tro yr hola i Ann am y car—"busnas rhyngoch chi a Huws ydi o" medda hi. Gwaeth na rhoi'r car iddo fo mi rois y llyfr hefyd, iddo fo gael leisans, 'laswn i. Rwan mae ei enw fo ar hwnnw. Ond mi fedar y twrna brofi nad y fo pia fo medda fo, ond tydio ddim mor siwr fedar o ei orfodi o i ildio'r llyfr.

INSPECTOR : Ydi'r twrna wedi anfon llythyr iddo fo?

ROBAT : Na, rydw i wedi ei beru o beidio. Dim isio styrbio Ann.

INSPECTOR : Pryd buoch chi'n gweld eich chwaer ddwytha?

ROBAT : Ddydd Gwener.

INSPECTOR : Wel dwn i ddim oes yma achos o ladrad ai peidio . . . rhoswch, dyma Tomos yn dwad . . . ond rhaid cael hyd i'r car. Dim gair wrth enaid byw cofiwch rhag ofn i Huws glywed.

TOMOS : Dim un dim i weld, Inspector. Mi chwiliais y caea i gyd. Roedd y ddau dderyn druan yma'n sownd yn y weiran ar derfyn y winllan, ac roedd yn well gin i difa nhw na'u gweld nhw'n diodda. (SAIB)

(SWN LLUCHIO CERRIG AT FFENESTR)

TOMOS : Robat! Wiliam! Codwch Robat.

ROBAT : Pwy sy na?

ROBAT : Be ar y ddaear?

TOMOS : Dowch i lawr gynta medrwch chi. Mae'n bwysig ichi beidio colli gormod o amser.

ROBAT : Eich hunan ydach chi?

TOMOS : Ia'n duwc, ia. Faswn i'n meddwl wir. Mi ddioddid nes bydda pawb yn y pentra acw yn ei wely. Mi fasa'n ddigon imi am fy mhensiwn tasan ni'n cael ein dal heno 'ma.

ROBAT : Ni?

TOMOS : Ia, chi a fi. Ble mae Wiliam?

ROBAT : Mae o'n cysgu'n sownd. Oes isio imi ddeffro fo?
TOMOS : Fel fynnoch chi. Na, waeth ichi adael iddo am wn i. Ylwch Robat, gwrandwch yn astud arna i am funud bach.

ROBAT : Ga i wneud paned ichi?

TOMOS : Na, mi wna i'n iawn . . .

ROBAT : Glasiad o gwrw 'ta. Mae'r hen gasgen yn y deri o hyd.

TOMOS : O reit, mi gymra i lasiad efo chi. Mi glywsoch yr Inspector yn fy mheru i fynd rownd y caea yma bore heddiw yn do?

ROBAT : Do.

TOMOS : Mi es inna, ac mi alwis yn y Beudy Ucha. Meddwl cael y gwn ron i, a mynd i'r winllan am dderyn. Mi welis y car, Robat. Wyddwn i ddim prun ta chwerthin ta chrio ddylwn i. MXS 411. Dyna fo ichi. Car Huws y Gweinidog. Tydw i ddim wedi weld o medda fi wrtha fy hun drosodd a throsodd. Ac erbyn imi gyrraedd yn ôl atoch chi a'r Inspector, roeddwn i wedi perswadio fy hun fod hynny'n wir. Mi coeliodd yr Inspector fi : mae o'n dal i goelio.

ROBAT : Roedd gin i reswm da dros gymryd y car . . .

TOMOS : Rydw i yn eich coelio chi, ond os daw rhywun ar draws y car yna yn y Beudy Ucha, lleidar fyddwch chi yng ngolwg y fainc, Robat, a'r gosb, rhwbath o ddwy i dair blynadd o garchar. Tydw i ddim am i chi gael mynd i garchar. Mae gin i blân i gael gwared o'r car . . . ffansi ceisio powdwr du a'i roi o yn y tanc petrol.

ROBAT : Na, tydach chi ddim i'w ddifa fo.

TOMOS : Meddwl wedyn na fasa tri ohonom ni ddim yn hir yn ei gladdu o.

ROBAT : Twt, peidiwch â chyboli.

TOMOS : Ond heno, yn hwyr heno y gwelis i hi. Rydw i am ichi ddreifio fo i Bant y Bwgan.

ROBAT : Na, na. Wna i ddim. Yma mae lle'r car.

TOMOS : Ddois i ddim yma i ddadla Robat. Plan i'ch arbed chi sy gin i. Mi fasa wedi bod yn llawer llai o drafferth imi ddeud wrth yr Inspector fod y car yn y Beudy

Ucha. Na, rydach chi am i ddreifio fo heno i Bant y Bwgan.

ROBAT : Sgin i ddim syniad lle mae Pant y Bwgan.

TOMOS. Mae o o fewn tafliad carreg i'r llain lle rydw i yn cadw icir. Mae o o'r neilltu ac eto yng nghanol y pentra acw. Mi fydda i hefo chi i ddangos y ffordd ichi.

ROBAT : Na wir, fedra i ddim. Peth arall, os awn i ag o, mi fydd rhyw greadur diniwed yn cael i feio ar gam. Mi wyr pawb na fydd y car ddim wedi rhedeg yno ohono i hun.

TOMOS : Gadewch chi hynny i mi. Mi ofala i na fydd neb yn cael i gosbi ar gam. Rhowch got amdanoch. Mi awn ni i'r Beudy Ucha. Mae gin i dortsh reit dda.

ROBAT : Taswn i'n deud wrthoch chi na chafodd Huws mono fo trwy ffordd onest iawn . . .

TOMOS : Tydw i'n ama dim, ond y peth pwysig rwan ydi cael gwared o'r car o Ros Bach. Eich côt, Robat—gorchymyn plisman.

ROBAT : O'r gora, ond rydw i bron yn siwr na tydw i ddim yn gneud y peth iawn.

TOMOS : Reit handi, ne mi fyddwn yn dwad ar draws Jac yr Odyn a'i filgi. Mae o'n codi wyth ac yn mynd i'w wely dri. (SAIB)

(CAR YN CYCHWYN)

ROBAT : Mae'r batri'n mynd yn isal. Rhowch chi dro yn yr handlan. Gwthiwch yn sownd i chael hi i lle.

TOMOS : Trwy'r twll yn y bympar?

ROBAT : Ia, hanner tro cofiwch, mae o'n cicio braidd.

TOMOS : Go drapia las, mi 'llyngodd ei gafael. Rydw i siwr o fod wedi torri mawd yn glir i ffwrdd. Rydw i'n medru twtsiad 'y ngarddwrn efo'i flaen o. Ylwch.

ROBAT : Peidiwch byth â rhoi eich bawd am handlan car. Peth gwiriona newch chi. Dowch chi yma i ddal y choke. Mi ro inna dro.

(CYCHWYN)

TOMOS : Stopiwch am funud imi gael rhwymo 'meic tu ôl.

ROBAT : Rhwmwch chi o 'ta. Fiw imi ddwad allan rhag ofn i'r injan stopio.

TOMOS : Fydda i ddim dau chwinciad.

(Y CAR YN MYND)

Rhowch lai o olau, Robat, da chi. Mi dynnwch sylw. Rhoswch, pwyso 'i droed ar ryw dip yn y gwaelodion yma y bydd yr Inspector i gael llai o ola. O, mi clywa i o.

ROBAT : Aw! Gollyngwch ddyn . . . y mys bach i ydi hwnna . . .

TOMOS : Car cyffyrddus, Robat.

ROBAT : Car clyfar iawn.

TOMOS : Mae o'n lletach o sbel na char yr Inspector. Fedra i ddim cynnig mynd i mhoced i nol fy mhowtsh baco yn hwnnw.

ROBAT : Bedach chi'n gael y tu ôl yna?

TOMOS : Gollwng tipyn o bapura fferins rydw i hyd y llawr. Ydach chi'n ei gweld hi?

ROBAT : Nag ydw i.

TOMOS : Tydi o'n ddim ichi weld dau'n dri o geir ym Mhant y Bwgan ar nos Sadwrn. Cyplau ifanc yn caru, Robat . . . Trowch i'r dde yn fanma rwan. Mi fedrwn osgoi'r pentra.

ROBAT : Mae hi'n gul yma. Mi fyddai'n o dynn ar ddau gar basio'i gilydd ar hon.

TOMOS : Welwn ni neb heno.

(Y CAR YN POERI)

Ydi o am nogio, Robat?

ROBAT : Na, go brin. Hir yn twmo maen nhw. A mae un o blygia hwn yn methu, siwr gin i.

TOMOS : Ydi hwnnw'n beth perig deudwch? Deith o ddim ar dân debyg?

(CAR YN DECHRAU NOGIO)

ROBAT : Na, dim ond deud rom bach ar i dynnu o.

TOMOS : Mae 'na blygia ar y ceir newydd yma run fath â'r hen rai?

ROBAT : O oes, siwr gin i.

TOMOS : Clywed car yr Inspector yn tynnu'n dda bydda i.

ROBAT : Wyddoch chi be . . . mae o am stopio. Fedra i ddim cynnig cadw'r injan i fynd . . . Dyna fo, wedi stopio.

TOMOS : Drapia las. Fedwrch chi wneud rhwbath?
Drugaredd bod fy nhortsh gin i.

ROBAT : Mae o cyn syched â'r garthan.

TOMOS : Dim petrol?

ROBAT : Ia, mi ddylwn fod wedi morol am roi peth cyn cychwyn.

TOMOS : Roedd Huws yn dweud mai galwyn fydd o'n ei roi ar y tro . . . Beth am i wthio fo ar hyd y gwastad 'ma. Mi ai i lawr yn ei bwysa ar ei ben i Bant y Bwgan. Dowch, mi triwn ni o . . . Ewc! mae o wedi glynud . . .

ROBAT : Rhoswch imi dynnu'r brec. Dyna fo rwan.

TOMOS : Mae o wedi sgafnu'r hanner. Byddwch yn barod i neidio rhag ofn iddo fo'n rhedag ni . . . Mi welis amsar pan faswn i'n gwthio un dair milltir ar i fyny. Peidiwch â mentro gormod, Robat, Neidiwch i mewn ne mae o'n siwr o'n gneud ni.

ROBAT : Mae o'n symud ohono'i hun . . . Dowch, mi ellwch chitha fentro neidio i mewn, Tomos. Dowch . . . mae o'n dechra codi sbid.

TOMOS : Tendiwch rhag ofn imi gael 'y ngwasgu . . . Duwc, go dda. Dim ond rownd y tro yma ac mi welwch y Pant. Coblyn o allt ydi hon, Robat.

ROBAT : Meddyliwch for arna i isio dwad i fyny peth run fath eto heno.

TOMOS : 'Caech chi i phen hi welsoch chi rioed mor handi reith yr hen feic adra. Cofiwch fod y three-speed yn groes i Sturmev-Archer. Tynnu atoch i gael gêr fawr. Gewch chi weld i fod o'n medru symud . . . Dyma ni. Daliwch gymaint â fedwrch chi i'r lle glas 'ma. Dyna fo i'r dim. Iawn yn fanna.

ROBAT : Faint o'r gloch ydi hi tybad?

TOMOS : Tua hanner awr wedi dau faswn i'n i gesio hi. Rhoswch, mae na un cwlwm eto. Drapia, cwlwm gwllwm. Mi fydd yn rhaid imi dorri o . . . Dyna chi, mi fyddwch adra ar slap wedi cael top yr allt. Mae na ola iawn ar y lamp flaen. Na, toes yna ddim lamp goch arno fo. Hitiwch befo, welwch chi neb heno.

ROBAT : Mi a'i. Dwn i ddim be wnai Wiliam tasa fo'n digwydd deffro a ngweld i wedi mynd.

TOMOS : Dyna chi. Nos dawch. Tasa rhywun yn holi, cofiwch na tydach chi ddim wedi bod o'ch gwely heno. (SAIB)

Helo Exchange. Tomos plisman sy ma. Ydyn nhw wedi cyrraedd i'r offis bellach? Neb? Ron i'n ama i bod hi'n o fora iddyn nhw. Triwch gael yr Inspector imi ta. Ia. Go brin ei fod o wedi cychwyn . . . Na, hitiwch befo, mae'r Inspector ar gyrraedd yma rwan . . . mi wela i gar o drwy'r ffenast. Diolch fawr.

INSPECTOR : Peidiwch â chodi'ch gobeithion, Tomos, does yna ddim newydd. Galw wnes i i ddeud petaech chi'n dwad o hyd i'r car yna, am ichi beidio ar unrhyw gyfri â mynd â fo yn ei ôl i Huws y Gweinidog. Rhowch wybod i mi, ac mi ddown i'w nol o. Mae digon o le i'w roi o dan do yn sied y Patrol.

TOMOS : Ond mae yna newydd, Inspector. Mae'r car wedi dwad i'r fei.

INSPECTOR : Ble mae o?

TOMOS : Ym Mhant y Bwgan.

INSPECTOR : Yng nghanol y pentra ma? Ron i'n cymryd eich bod chi wedi chwilio'r pentra 'ma nos Sul.

TOMOS : Roeddwn i wedi chwilio, ond pwy fyth fasa'n meddwl am Bant y Bwgan. Bwydo'r ier ron i'r bore ma. Ma gin i hanner dwsin o gwennod, petha ifanc gwyllt. Mi hedodd un ohonyn nhw dros y clawdd. Wrth chwilio am honno y dois i o hyd i'r car.

INSPECTOR : Dowch, mi awn ni yno i gael golwg. (SAIB) (SWN Y WLAD YN Y BORE—IEIR ETC.)

Ia dyma fo. Hwn ydi o. I feddwl gymaint ydan ni wedi grwydro Tomos, a chael hyd iddo fo o fewn tafriad carreg i'r capel yn y diwedd.

TOMOS : Ia, felna gwelwch chi hi'n amal.

INSPECTOR : Peth od fod o â'i drwyn at y pentra, ynte? Pwy bynnag dreifiodd o yma, mi aeth o'i ffordd gryn dipyn. Mi aeth ar hyd y ffordd bost i gyfeiriad Tregwalia a thro i lawr Allt y Ffatri i ddwad i Bant y Bwgan. I be meddwch chi?

TOMOS : Na wir, mi allsa dreifar go lew droi car yn ei ôl yn fanma yn hwylus iawn. Mae hi'n llydan iawn yn is i lawr yn fanma sylwch.

INSPECTOR : Ydi, ond pam trafferthu i'w droi o gwbl?
TOMOS : Os rhyw gwpwl ifanc yn caru oeddan nhw. Mi droeson y car yn ei ôl er mwyn i'r sawl ddoi o hyd iddo fo feddwl mai o Dregwalia y doth o yma.
INSPECTOR : Sut rydach chi mor siwr mai dau gariad fu wrth y gwaith?
TOMOS : O, mae Pant y Bwgan yma'n enwog fel cilfach cariadon, a pheth arall—drychwch yn y tu ôl yna.
INSPECTOR : Ia wir, mae'r llawr yn bapura taffis i gyd. Rydach chi'n gwella fel ditectif, Tomos. Helo, mae'ch pib chi yma ddyliwn i.
TOMOS : A fanma collis i hi bora? Wrth blygu i edrach oedd yna rwbath dan y sêd yn siwr i chi. Rydw i wedi chwilio iard yr ieir bob modfedd. Ron i'n berffaith siwr i bod hi gin i yn cychwyn o'r tŷ.
INSPECTOR : Go brin cawn ni wybod byth pwy ydi'r ddau fuo'n mwynhau'r wledd yma mae'n siwr.
TOMOS : Gadwch chi bythnefnos ne dair wsnos i mi, a mi fydda i'n siwr ohonyn nhw ichi. Mi a i heibio Ifan y Teiliwr. Dyna hobi Ifan, dwad i Bant y Bwgan i dendio cyplau'n caru.
INSPECTOR : Ia, gora oll os cewch chi wybod, ond tydi hynny ddim yn bwysig iawn ar hyn o bryd. Peth od iawn na fasan nhw wedi cymryd car Robaits Pen y Garn. Hwnnw oedd y nesa i law iddyn nhw.
TOMOS : Fasach chi'n licio mynd â merch ifanc allan ar nos Sul yng nghar Robaits? Mi glywsoch Mrs. Robaits yn deud ffasiwn olwg sy arno fo. Mae o fel cwt cwningan, a fawr ffenast yn gyfa yno fo. Camp ichi gadw'n gynnas yn hwnnw.
INSPECTOR : Roedd merched ifanc fy amser i yn wahanol iawn i rhein, choelia i byth.
TOMOS : F'amsar inna hefyd Inspector. Cofio pan o'n i'n twsu Meri. Gwaith awr a hanner o reidio beic bach, a chwta hanner awr fyddwn i'n gael hefo hi. Fydda dim gwell rhoi gwbod i'r parchedig fod ei gar o wedi dwad i'r fei?
INSPECTOR : Ei gar o ddeudsoch chi?
TOMOS : Ia.

INSPECTOR : Phia fo mono fo Tomos. Hen lancia Rhos Bach pia fo.
TOMOS : Grym mawr! a finna wedi meddwi rioed fod pob gweinidog yn onast fel Beibil.
INSPECTOR : Rydw i wedi trefnu i Cadwaladr y twrna ddwad i weld Huws y pnawn 'ma. A bellad â'ch bod chi wedi cael hyd i'r car, mi alwa i am Robat Williams hefyd, ac mi geith yntau fynd adra yn hwn . . . yn ei gar ei hun.
TOMOS : Wel, wel, tawn i'n marw.
INSPECTOR : Un peth arall, Tomos: peidiwch â byta gormod o fferis. Tydyn nhw'n help yn y byd i'ch presiar chi.

(CEILIOG YN CANU)